

## Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-14-02(min)

### COFNODION

**Dyddiad:** Dydd Iau, 27 Mehefin 2002

**Amser:** 2.00pm tan 4.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Presennol:** **Aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Kirsty Williams  
**(Cadeirydd)** Brycheiniog a Maesyfed

Geraint Davies Rhondda

Brian Gibbons Aberafan

Brian Hancock Islwyn

Jane Hutt (Gweinidog) Bro Morgannwg

Ann Jones Dyffryn Clwyd

Dai Lloyd Gorllewin De Cymru

Val Lloyd Dwyrain Abertawe

David Melding Canol De Cymru

**Swyddogion Yn Bresennol**

Dr Ruth Hall Prif Swyddog Meddygol

Ann Lloyd Cyfarwyddwraig, GIG Cymru

Paul Parker Is-adran Iechyd Sylfaenol a Chymunedol

Stephen Redmond

Is-adran Adnoddau Dynol y GIG

**Ysgrifenyddiaeth:**

Jane Westlake

Clerc y Pwyllgor

Claire Morris

Dirprwy Glerc y Cyngor

Peter Jones

Cwnsler i'r Pwyllgorau

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a Dirprwyon**

1. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jocelyn Davies, Lynne Neagle a Rod Richards. Roedd Brian Hancock yn dirprwyo dros Jocelyn Davies a Val Lloyd yn dirprwyo dros Lynne Neagle.
2. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Lynne Neagle a Huw Lewis yn mynegi llongyfarchiadau a dymuniadau gorau'r Pwyllgor iddynt ar enedigaeth eu mab.
3. Cytunwyd hefyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Jocelyn Davies, a oedd yn gwella ar ôl llawdriniaeth, gan gynnig dymuniadau gorau'r Pwyllgor iddi.
4. Atgoffwyd yr aelodau am y gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiant cyn cymryd rhan yn y gweithrediadau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Geraint Davies, fferyllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Brian Gibbons, ymarferydd meddygol cofrestredig;
  
- Dai Lloyd, ymarferydd cyffredinol ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Val Lloyd, aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe, nyrs gofrestrdig ac athrawes nyrsio.

**Eitem 2: Mesur Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd – Gorchymyn Drafft *arfaethedig***

**Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cymru) – Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau**

**Papurau: HSS-14-02(p.1) a HSS-14-02(p.1a)**

2.1 Yn unol â'r weithdrefn y cytunwyd arni eisoes gan y Pwyllgor ar gyfer ymdrin â deddfwriaeth, roedd newidiadau i'r Gorchymyn drafft *arfaethedig* wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod a gellir dod o hyd iddynt ym mhapur HSS-14-02(p.1a). Yn ogystal, cytunwyd y byddai cyfle i'r Aelodau ofyn unrhyw gwestiynau neu geisio cael eglurhad gan y Gweinidog cyn symud ymlaen i wneud unrhyw welliannau ffurfiol.

2.2 Dywedodd y Gweinidog fod y rheoliadau yn cynnwys amrywiaeth o ddarpariaethau am aelodaeth a chyfansoddiad y bwrdd yn cynnwys eu gweithdrefnau a'u trefniadau gweinyddol a byddai'n amodol ar ymgynghoriad ehangach â rhanddeiliaid allweddol. Yn ogystal byddai gan yr Aelodau gyfle i gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori, a fyddai'n digwydd o fis Gorffennaf i fis Medi.

2.3 Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau:

- Roedd y Mesur wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol
- Byddai diffiniad clir o'r amgylchiadau lle y byddai gofalwr yn bwriadu darparu gofal - "intends to provide care" - yn cael ei gynnwys yn yr arweiniad
- Roedd "first members" yn aelodau a oedd wedi'u penodi cyn y daeth y rheoliadau i rym.
- Penderfynwyd ar strwythur aelodau Byrddau Iechyd Lleol (BIL) drwy ymgynghoriad eang â rhanddeiliaid allweddol. Nid oedd unrhyw gysylltiad â'r meysydd daearyddol a gwmpaswyd gan y BIL. Roedd angen cydbwyso'r proffesiynau a gynrychiolwyd ar y bwrdd.
- Roedd "associate members" yn cynrychioli diddordebau penodol ac yn cael eu henwebu gan y grwp yr oeddent yn ei gynrychioli. Roeddent yno drwy hawl a gallent siarad ond nid oedd hawliau pleidleisio ganddynt.
- Y Cadeirydd oedd yr unig benodiad cyhoeddus a wnaethpwyd gan y Cynulliad ond disgwyliid y byddai pob penodiad yn cael ei wneud o dan weithdrefn Nolan.
- Roedd penodi Prif Swyddogion am gyfnod heb fod yn fwy na phum mlynedd yr un peth ag yn rheoliadau Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Lloegr. Cytunwyd y gallai hyn fod yn anghymhelliaid i rai ymgeiswyr felly byddai Cyfarwyddwraig GIG Cymru a'i thîm yn ystyried pa un a oedd y terfyn hwn yn briodol i Gymru.
- Roedd angen diffiniad clir o'r math o berthynas bersonol a allai olygu "married persons living together", o safbwynt diddordebau ariannol. Dywedodd David Melding fod y Pwyllgor Safonau eisoes wedi edrych i mewn i'r mater hwn yng nghyd-destun Rheolau Sefydlog y Cynulliad ac wedi cael cyngor cyfreithiol gan Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.
- Roedd "remote or insignificant" yn ymadrodd safonol a ddefnyddiwyd mewn rheoliadau a byddai'n anodd iawn i'w gyfyngu neu fod yn fwy penodol gan y byddai'n amrywio yn ôl yr amgylchiadau.

2.4 Nododd y Cadeirydd y byddai penodiadau Cadeiryddion BIL yn y dyfodol yn cael eu gwneud dros gyfnod o amser. Diolchodd i David Melding a Brian Gibbons am eu gwaith wrth benodi'r 21 o gadeiryddion cychwynnol.

**Gwelliant 1 – cynigiwyd gan David Melding, AC**

**Yn Adran 2, o dan y paragraff sy'n dechrau â "carer": dileu "aged 18 or over".**

-  
Ymateb gan y Gweinidog

Derbyniwyd y gwelliant.

### **Gwelliant 2 – David Melding, AC**

**Yn Adran 3, o dan is baragraff. (4) (c):** dileu "four" a rhoi "three".

Ymateb gan y Gweinidog

Ni dderbyniwyd y gwelliant. Byddai'n lleihau cynrychiolaeth yr awdurdod lleol, pan mai ymrwymiad allweddol yn y broses newid strwythurol oedd cynyddu cynrychiolaeth awdurdodau lleol i gynnwys aelodau etholedig, a'i bod yn bwysig yn nhermau'r partneriaethau a feithriniwyd ag aelodau awdurdodau lleol.

Casgliad

Dywedodd David Melding mai ei fwriad wrth gynnig y gwelliant hwn oedd creu lle ar gyfer ymgynghorydd GIG ond pe byddai'r Gweinidog yn derbyn Gwelliant 7 byddai'n tynnu'r gwelliant hwn yn ôl.

### **Gwelliant 3 – David Melding, AC**

**Yn Adran 3, o dan is baragraff. (4)(m):** dileu "three" a rhoi "four"; a

### **Gwelliant 7 – David Melding, AC**

**Yn Atodlen 2, para. 17:** dileu "three" a rhoi "four".

Ac ychwanegu is baragraff newydd (d):

"d). one must be an NHS consultant working for an NHS Trust"

Ymateb gan y Gweinidog

Derbyniwyd y ddau welliant. Dywedodd y Gweinidog y byddai hefyd yn chwilio am gynrychioliad BIL1 ar fyrddau Ymddiriedolaeth GIG.

### **Gwelliant 4 – David Melding, AC**

**Yn Adran 3, o dan is baragraff (5):** dileu'r is baragraff cyfan a rhoi

"(5) The Board may appoint observers to assist the Board to discharge its functions".

Ymateb gan y Gweinidog

Ni dderbyniwyd hyn, gan nad oedd yn newid yr hanfod a themlwyd ei fod yn llai clir na'r drafft.

Prif Bwyntiau'r Drafodaeth

Dywedodd David Melding iddo geisio gwahaniaethu'n glir rhwng aelodau cyfetholedig a'r aelodau a restrir yn Adran 3 (4) (a)-(m). Byddai angen datganiad clir nad oedd aelodau cyfetholedig yn aelodau llawn o'r bwrdd.

Casgliad

Ni phasiwyd y gwelliant.

**Gwelliant 5 – David Melding, AC**

**Yn Adran 14:** dileu "co-opted members" a rhoi "observers"

ac ychwanegu brawddeg arall:

"Observers may only speak when invited to do so by the Chair of the Board".

Ymateb gan y Gweinidog

Ni dderbyniwyd hyn. Nid oedd y Gweinidog yn dymuno cyfyngu hawliau siarad aelodau cyfetholedig i wahoddiad gan y Cadeirydd.

Casgliad

Ni dderbyniwyd y gwelliant.

**Gwelliant 6 – David Melding, AC**

**Yn Atodlen 1,** ychwanegu pwyntiau newydd 3 a 4:

"(3) The Board shall submit arrangements for the selection and appointment of members to the Assembly for approval".

"(4) Any proposed changes to arrangements for the selection and appointment of members shall be submitted by the Board to the Assembly for approval".

### Ymateb gan y Gweinidog

Derbyniwyd y gwelliant.

### **Gwelliant 8 – David Melding, AC**

**Yn Atodlen 3:** ychwanegu paragraffau newydd 8 a 9:

"(8) Subject to the exceptions listed in (9) below, Board meetings shall be held in public. Subject to the exceptions listed in (9) below, the minutes of the Board meetings shall be publicly available".

"(9) The Chair of the Board may deem that specified items of business shall be restricted for legal or public interest reasons. In making such a determination, the Chair must be satisfied that it is reasonable to exclude the public for the discussion of such items. The Chair shall give notice of such items that are to be restricted and shall arrange the Board's agenda so that restricted items are separated from all other business. Under no circumstances shall the public be excluded from any part of Board meetings that deal with non-restricted items. The minutes of restricted items shall not be publicly available".

### Ymateb gan y Gweinidog

Roedd darpariaeth eisoes yn y Ddeddf ar gyfer cyfarfodydd i'w cynnal yn gyhoeddus ond ni fyddai'n broblem ail-bwysleisio hyn yn y rheoliadau. Derbyniwyd y gwelliant. Dywedodd David Medling y byddai'n fodlon i'r Gweinidog ail-eirio'r gwelliant, os bydd hyn yn briodol.

2.5 Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen am ddrafftio niwtral o ran rhyw yn y rheoliadau. Byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog yn amlinellu trafodaeth a chasgliadau'r Pwyllgor.

### Gweithredu

- Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog gan amlinellu casgliadau'r Pwyllgor.

### **Datganiad ar y Mesur Iechyd Meddwl Drafft**

Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar y Mesur Iechyd Meddwl drafft. Amgaeer copi yn Atodiad A.

Mynegodd yr Aelodau bryder am ddarpariaethau'r Mesur yn cynnwys y goblygiadau hawliau dynol a'r capasiti i roi'r mesurau diogelu ar waith megis gwasanaethau eiriolaeth a thribiwnlysoedd. Roedd Iechyd Meddwl yn un o flaenoriaethau'r Pwyllgor ac roedd yn bwysig bod gan y Pwyllgor a'r Cynulliad y cyfle i ystyried y Mesur yn fanwl yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cytunodd yr Aelodau y dylid gwneud cynrychioliadau i'r Pwyllgor Busnes i amserlennu dadl Sesiwn Llawn ar y pwnc hwn cyn toriad yr haf. Cytunwyd hefyd y dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol geisio cael caniatâd y Llywydd i ailymgynnull ar 11 Medi i drafod y mater hwn cyn diwedd y cyfnod ymgynghorol ar 16 Medi.

## Gweithredu

- Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes a'r Llywydd.

### **Eitem 3: Targedau Staffio ar gyfer y GIG yng Nghymru**

#### **Papur: HSS-14-02(p.2)**

3.1 Dywedodd y Gweinidog fod y Pwyllgor wedi derbyn canlyniadau Data Cynllunio Gweithlu 2001 ym mis Rhagfyr 2001 a bod y rhain wedi'u dilysu bellach. Roedd y targedau staff yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan y GIG ac yn seiliedig ar angen yn hytrach na fforddiadwyedd. Sefydlwyd grwp llywio, o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwraig y GIG yng Nghymru, a fyddai'n gyfrifol am gynllunio gweithlu'r dyfodol a hefyd sicrhau y gellid diwallu anghenion staffio yn y dyfodol drwy argaeledd rhaglenni addysg a hyfforddiant.

3.2 Mewn ymateb i'r papur a chyflwyniad y Gweinidog, gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Gofynnwyd am wybodaeth ar y dadansoddiad rhwng y gwahanol arbenigeddau meddygol.
- Os oedd y ffigurau yn seiliedig ar gyfrif pobl, yn hytrach na'r rhai oedd yn cyfateb â llawn amser, gallai'r tueddiad cynyddol i weithio hyblyg rhan amser negyddu unrhyw gynnydd gwirioneddol mewn niferoedd staff.
- Mynegwyd pryder nad oedd gweithwyr cymorth gofal iechyd mewn rhai ardaloedd yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y cynllun hyfforddi nyrsys.
- Roedd angen i'r GIG ddatblygu'n gyflogwr arloesol, a fyddai'n gwerthfawrogi ei staff, os oedd yn mynd i ddenu pobl i mewn i'r Gwasanaeth a chadw staff.
- Roedd goblygiadau ariannol a capasiti enfawr wrth hyfforddi'r meddygon a'r nyrsys ychwanegol yr oedd eu hangen.
- Roedd yr Aelodau wedi derbyn gwybodaeth ar y 'Cynllun Compact' a oedd yn cael ei redeg gan Goleg Meddygaeth Prifysgol Cymru (UWCM) ar gyfer disgyblion nad oedd ganddynt draddodiad o addysg uwch yn eu teulu ond ymddengys fod hyn ond yn cynnwys ardal Bro Taf yn unig fwy neu lai. Gofynnodd yr Aelodau am ymchwiliad pellach i hyn er mwyn sicrhau bod disgyblion o rannau eraill o Gymru hefyd yn cael y cyfle i fanteisio ar y cynllun.

- Roedd angen targedau byr dymor i fesur cynnydd.

### 3.3 Mewn ymateb i sylwadau gan yr Aelodau, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Roedd y grwp llywio yn gweithio ar ddadansoddiad o'r prif dargedau fesul ymddiriedolaeth ac arbenigedd. Byddai'r wybodaeth hon ar gael yn yr hydref.
- Roedd y ffigurau yn seiliedig ar gyfrif pobl ac nid ar niferoedd cyfartal â llawn amser.
- Roedd darlun clir o ran nifer y meddygon teulu yr oedd eu hangen dim ond yn dechrau dod i'r golwg. Cynhaliwyd rhaglen hyfforddi cynllunio gweithlu ar gyfer y sector gofal sylfaenol a byddai hyn yn effeithio ar gynlluniau 2002.
- Byddai'n ofynnol i ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd ddarparu strategaeth recriwtio a chadw er mwyn bwydo i mewn i strategaeth genedlaethol, gan fynd i'r afael â materion megis hyblygrwydd, cymorth gofal plant, datblygiad proffesiynol parhaus ac arferion cyflogaeth da.
- Roedd cynllun peilot yn cael ei gynnal yng Nghonwy a Sir Ddinbych er mwyn i 12 o weithwyr cymorth gofal iechyd gael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn iddynt gael mynd ar gyrsiau hyfforddiant nyrsio. Os byddai hyn yn llwyddiannus byddai'n cael ei gyflwyno ledled Cymru.
- Cynhaliwyd diwrnod agored y GIG ym mis Ebrill a chynhyrchwyd fideo i ysgolion. Roedd angen i hyn fod yn fwy na digwyddiad blynyddol a dylid ei anelu at ddenu pobl ifanc o bob cefndir i mewn i gyflogaeth y GIG.
- Roedd 8,400 o bobl wedi ymuno â'r GIG ers 1997. Yn fras, roedd hyn cyfateb â 4,500 o nyrsys, 1,100 o weithwyr cymorth gofal iechyd, 1,200 o bobl broffesiynol yn gysylltiedig â iechyd a 1,600 o feddygon ac eraill (yn cynnwys deintyddion).
- Cydnabuwyd nad fyddai'n bosibl recriwtio 200 o therapyddion lleferydd a iaith yn y byr dymor felly roedd dulliau eraill yn cael eu harchwilio, megis hyfforddi gweithwyr cynnal i'w cynorthwyo.
- Dylai'r contractau meddygon teulu ac ymgynghorwyr newydd gael effaith enfawr ar y nifer o bobl sy'n penderfynu ymuno â'r proffesiwn meddygol.
- Roedd strategaeth ddeintyddol ar gyfer Cymru yn cael ei pharatoi, a byddai'n cwmpasu cylch gwaith deintyddion a staff cynnal deintyddol.
- Roedd strategaeth fferylliaeth, ar gyfer fferylliaeth gymunedol ac ysbyty, ar fin cael ei lansio. Cefnogwyd nifer o fentrau i geisio mynd i'r afael â'r problemau recriwtio a chadw mewn fferylliaeth ysbyty. Nid oedd hyfforddi fferyllwyr yn fater sydd wedi'i ddatganoli.

#### Gweithredu

- Ymchwilio i argaeledd 'Cynllun Compact' UWCM i ddisgyblion ledled Cymru.
- Gwybodaeth bellach yn y dadansoddiad o'r ffigurau i'w darparu yn yr hydref.

### **Eitem 4: Strwythurau'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus**

**Papur: HSS-14-02(p.3)**



4.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur, a ddarparodd ddiweddariad ar greu'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS) yng Nghymru. Mewn ymateb i sylwadau gan yr Aelodau, gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- Yn ddelfrydol, byddai Arbenigwr mewn Iechyd Cyhoeddus ond yn gwasanaethu ar un BILl yn unig ond efallai y byddai ganddynt gylch gwaith ehangach os oedd ganddynt wybodaeth arbenigol, er enghraifft ar afiechydon heintus.
- Byddai'r NPHS yn atebol i'r Prif Swyddog Meddygol ar faterion proffesiynol a pherfformiad a Chyfarwyddwraig y GIG yng Nghymru fyddai'r swyddog cyfrifo ar gyfer rheolaeth.
- Byddai Arbenigwr mewn Iechyd Cyhoeddus yn atebol o ddydd i ddydd i Brif Weithredwr y BILl yr oeddent wedi'i benodi i'w wasanaethu.
- Ar hyn o bryd roedd 350 o bobl wedi'u cyflogi mewn gwasanaethau iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Byddai'r rhain yn trosglwyddo i mewn i'r NPHS, yn ogystal â'r 290 o staff a gyflogir ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Labordai Iechyd Cyhoeddus.
- Byddai gan pob Arbenigwr mewn Iechyd Cyhoeddus dîm bach o staff wedi'u lleoli'n lleol.
- Byddai rheolaeth amgylcheddol yn rhan allweddol o rôl Arbenigwyr mewn Iechyd Cyhoeddus, Byddai Canolfan Iechyd Cymru hefyd yn darparu llwybr pwysig i grwpiau diddordeb cymunedol gael mynediad i wasanaethau a gwybodaeth am iechyd cyhoeddus. Byddai BILl yn cynnwys cynrychiolwyr o ofal sylfaenol, llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a gofalwyr, a fyddai'n hwyluso cyfranogiad llawer agosach mewn materion lleol.
- Bydd gan BILl y pwerau statudol sydd eu hangen i weithredu swyddogaethau iechyd cyhoeddus.
- Byddai gan yr NPHS gylch gwaith ar gyfer diogelu plant dros Gymru gyfan.

4.2 Dywedodd y Prif Swyddog Meddygol y byddai Prif Weithredwr y BILl yn sicrhau cytundeb lefel gwasanaeth â'r NPHS. Byddai gan yr NPHS dri chyfarwyddwr rhanbarthol y byddai modd ymdrin â materion perfformiad a materion proffesiynol â hwy. Byddai'r NPHS hefyd yn darparu gwasanaeth i ymddiriedolaethau iechyd ac awdurdodau lleol.

## **Eitem 5: Papur i'w Nodi**

### **Cyfleuster Carcharu'r Ifanc, Carchar y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr**

#### **Papur: HSS-14-02(p.4)**

5.1 Tynnodd Brian Hancock sylw at y ffaith nad oedd cyfleusterau ar gyfer merched yng Ngharchar y Parc. Yn ogystal, tynnodd sylw at y cyfleuster a ddarperir yn Fferm Carchar Prescoed lle roedd troseddwyr ifanc o Garchar y Parc wrthi'n ceisio ennill cymwysterau mewn gweithio â choed a rheoli coedwigaeth, ac amlygodd eu hangen am fwy o arian i barhau i adsefydlu pobl ifanc yn ôl i'r gymuned.

## **Datganiad ar y Mesur Iechyd Meddwl Drafft**

Fel y gwyddoch, ddydd Mawrth cyhoeddodd y Llywodraeth Fesur Iechyd Meddwl drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Crybwyllwyd y Mesur drafft am y tro cyntaf yn y Papur Gwyn *'Diwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl'* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2000, ac mae wedi bod yn cael ei baratoi ers hynny. Mae barn gyffredinol bod angen adolygu'r ddeddfwriaeth iechyd meddwl sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr er mwyn diweddarau'r ddeddfwriaeth bresennol fel ei bod yn unol â modelau gofalu newydd er mwyn cyflawni'r agenda iechyd meddwl, ac i gydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i gynhyrchu mwy o'i Mesurau ar ffurf drafft cyn eu cyflwyno i'r Senedd yn ffurfiol. Mae hyn yn caniatáu craffu manylach ar y Mesur, yn ogystal ag ymgynghori â'r cyhoedd ar delerau'r ddeddfwriaeth arfaethedig, sydd yn ei dro yn helpu i gynllunio'r broses ddeddfwriaethol. Mae'r penderfyniad i ymgynghori ar y Mesur Iechyd Meddwl drafft hefyd yn cydnabod y ffaith bod rhai o'r cynigion, yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig â gwaith allgyrch pendant a dryswch personoliaeth peryglus a difrifol, eisoes wedi ennyn peth pryder ymysg rhanddeiliaid sydd yn ddadleuol o ran eu natur. At hynny dylid dweud y dylid ystyried nifer o'r cynigion yn y Mesur drafft fel rhai datblygol, gan eu bod yn cryfhau hawliau cleifion yr effeithir arnynt gan y Ddeddf, yn sicrhau cefnogaeth eiriolaeth well i gleifion wedi'u cadw a mynnu prosesau mwy clir a chadarn ym ymwneud ag archwilio gorfodol, asesiad a thrin cleifion. Yn yr ystyr hynny, does dim amheuaeth nad yw ysbryd y Mesur yn gyson â'r egwyddorion yr ydym yn eu cefnogi yn ein Strategaeth CAMHS a'n Strategaeth Iechyd Meddwl i Oedolion sydd o Oed Gweithio. Fodd bynnag, rhaid i ni gydnabod y materion capasiti sylweddol y bydd gwasanaethau yng Nghymru yn eu hwynebu wrth fodloni gofynion y Mesur. Wrth gwrs, nid yw'r materion hyn wedi'u cyfyngu i Gymru yn unig.

Ar ran y Swyddfa Gymreig, sydd â rôl ganolog yn y broses ymgynghori, mae fy swyddogion yn dosbarthu'r papurau ymgynghori i'n partneriaid yn y GIG, y gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. Bydd eu safbwyntiau yn hanfodol i'r broses ymgynghori.

Yn ogystal mae gan y Cynulliad rôl ganolog yn y broses ymgynghori a bydd yn ateb fel ymgynghorai. Mae'r papurau ymgynghori yn cael eu dosbarthu i bob Aelod o'r Cynulliad, yn ogystal â swyddogion allweddol o fewn y Cynulliad, i'w hystyried ac er mwyn rhoi sylwadau arnynt. Yn ogystal, mae trefniadau yn digwydd ar hyn o bryd i drefnu dau neu dri digwyddiad ymgynghorol yng Nghymru, y gwahoddir Aelodau'r Cynulliad a Rhanddeiliaid Allweddol iddynt, a defnyddir y rhain i helpu i lywio ymateb y Cynulliad. Gobeithir y cynhelir y rhain rywbryd yn ystod mis Awst. Oherwydd goblygiadau pellgyrhaeddol y Mesur hwn, ac amseru cyfnod ymgynghori'r Llywodraeth, a fydd yn rhedeg tan ddydd Llun 16 Medi, efallai y bydd angen trefnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod toriad yr haf er mwyn gwneud hyn. Trafodwyd y posibilrwydd hwn rhwng llefarwyr y pleidiau a minnau nos Fawrth.